Cofnodion drafft o Gyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu yn y Ganolfan Gymdeithasol Llanbedr 7.3.24 am 7.00 yr hwyr

Yn Bresenol

Cadeirydd Eirwyn Thomas, Cyngh. Annwen Hughes, Nia Jones, John Evans, Robin Ward, Luise Vassey, Helen Johns

Aelod o'r cyhoedd – Einir Pritchard.

Ymddiheuriadau

Kevin Titley, Jane Taylor Williams, Cyngh. Gwynfor Owen.

Aelodau Open Reach yn siarad am uwchraddio ein rhwydwaith band eang yn Llanbedr ac egluro y 6 cam I gael band eang ffeibr cyflawn tra chyflym.

Gavin Jones a Eilir Owen Openreach

Bod yna 50% o sylw drwy Gymru ar hyn o bryd.

Disgwyl erbyn 2026/27 bydd yn  80% I 90%

Yn rhoi mwy o gyfla a gallu I bobl weithio o adref mewn mannau anghysbell. Y system ffibr yma yn barod yn Llanbedr ond yn defnyddio y weiren gopr, ac felly yn arafu y cyswllt.

Mae angen 115 o annedd dai yn Llanbedr I addo ein taleb I openreach.  Ar hyn o bryd y ffigwr yw 59 pledge.

Mae angen felly roi hysbs I hyn ar y wefan a fb.  Rhai bobl ofn gneud hyn.  Ddim yn costio I'r trigolion,  Bydd contract ar y diwedd fodd bynnag yn costio.

Mae Robin wedi addo gwneud rhestr o gwestiynnau o bosib a fydd o gymorth wrth ddosbarthu taflenni o ddrws I ddrws.  Nifer o dai haf yn yr ardal yn anodd cael mynediad atynt.

Angen cyrraedd y nod o 115 o annedd dai erbyn diwedd y mis.

Bydda modd hefyd rhoi y manylion ar face book a hefyd y wefan

Diolchwyd iddynt am ddod I egluro y broses yn Llanbedr.

Ymlaen a materion y Cyngor

Datgan Buddiant – dim byd I ddatgan

Nodwyd bod cofnoodion chwefror yn gywir.  (Neud yn siwr bod y rhai saesneg hefyd wedi eu cywiro.  Wrth son am Gorsaf Dren Talwrn Bach – cyfeirio at drenau Newydd ac nid rhai trydan)!!!

Ceisiadau Cynllunio

- Dim ceisiadau o'r Newydd.
- Holwyd a oedd yna unrhyw ddatblygiad parthed cais cynllunio arfaethedig ar gyfer adeiladu ystorfa yn Mochras.  Nododd AH bod hwn yn nwylo Cyfoeth Naturio – bod asesiad cynefinoedd yn cael ei gwblhau ar y safle.

ADRODDIAD CYLLID –

Nododd y Clerc bod yna  £ 25755.01 yn y banc diwedd Chwefror (29.2.24)

Bod taliad olaf I HAL wedi ei wneud

Bod anfoneb am £700 wedi dod gan Archwiliad Cymru.

Angen cael anfoneb arall ganddynt gan ein bod eisioes wedi talu £200 ym mis Rhagfyr (am waith trosglwyddo rhwng BDO a Llywodraeth Cymru) . Wedi deall wedyn nad oedd angen talu hwn.

Materion Eraill y Cyngor

1. Y Fynwent – bod y Gwaith yn mynd I ddechrau 11.3.24 ar y clawdd.
   y polici ysiwriant gan NFU er mwyn anfon at Robinsons.
   A bydd Never Cut yn cael ei wneud hefyd. Pasiwyd I roi decing plastig fel sedd yma yn lle slabiau concrid.

2. Cae Chwarae – pasiwyd I wneud y Gwaith ar yr offer gan bod £2000 wedi ei neilltuo ar gyfer flwyddyn arianol yma. Cost o £1350 (+TAW o 270) hyn yn cynnwys gwneud y meinciau. Y Gwaith paentio a hefyd y wet pour I'w wneud eto yn flwyddyn 2024/25
3. Llwybrau Cyhoeddus

a) 1 tender sydd wedi cyrraedd hyd yma . Angen hysbysu ar dudalen we. Wedi neilltuo £1200 ar gyfer eu torri. Falle na fydd hyn yn ddigon I wneud y llwybrau. Map a manylion I fynd ar y wefan.

b) . Llwybrau angen sylw –

Pwy sydd yn gyfrifol am lwybr Taith Ardudwy – problemau ger Dinas.

Hefyd llwybr o Graig Artro drwy'r Coed I Rhiw Garth Goch. Mwdlud iawn, yn cael ei ddefnyddio fel llwybr ceffyl. Ddim yn sicr o'I statws, ond bod yma hanes o geffylau yn ei ddefnyddio yn y gorffennol.

Llwybr o'r Cae Chwarae at y Bont – dwr yn casglu ac yn creu mwd ar y llwybr yma. A oes modd torri tyllau yn y wal er mwyn I'r dwr fynd I'r afon?

Holi Gwyn Evans llwybrau parthed hyn

4. Ffordd Newydd ac Enillion Cyflum Llanbedr – yn Dilyn y cyfarfod diweddar yn Llanbedr.

a) Beth oedd sylwadau y Cynghorwyr a fu yn y cyfarfod –

Bod gwaith y Contractwyr wedi creu argraff.

b) Beth am y cysgodfannau pren ger Hafan Artro a Victoria.
   Bod pwyslais ar drafnidiaeth weithredol gyfan ar gyfer Llanbedr. Ond nid yw'r cysgodfannau yn addas ran gwneuthuriad o bren a gwydr.
   Byddai angen cysgodfan ger y Vic ar gyfer 20 o blant Ardudwy a tua lle ar gyfer 10 ger Hafan Artro.
   Gwneuthuriad a defnyddiau ddim yn addas. Rhy drwm, methu gweld I'r ffordd .
   Gofyn a oes modd cael delwedd 3D weledol ar gyfer y ddau gysgodfan gan bod yna gryn bryder parthed gweladwyedd.

5. Cyfarfod Cynghorau ardal parthed HAL

Nodwyd mae dim ond 2 Gyngor oedd yn parhau I gyfrannu drwy'r presept iddynt, sef Llanfair a Harlech.

Dim ond Cyngor Dyffryn Ardudwy oedd wedi cael ymholiad parthed peidio a chyfrannu.

Yr oedd y Cynghorau yn gweld bydd mewn cyfarfodydd o'r fath ac yn dymuno parhau ar drefn. Er mwyn bod Cynghorau yn deal yn well anghenion Cynghorau eraill. Ac efallai mewn sefyllfa I helpu – fel ffordd arfaethedig Llanbedr. Pasiwyd bod cyfarfod arall yn cael ei gynnal ym mis Mai. Ond nid oedd dyddiad wedi ei benodi.

Adroddiad Cynghorydd Annwen Hughes

1. Wal ger Ty'n Ddol yn cael ei thrwshio.
2. Gwneud Gwaith ar y cloddiau ochr ffordd.
3. Llwybr rhif 2 ger Beydy Bach – tacluso.
4. Sweeper I llnau ffordd.
5. Pot holes ffordd Cwm Bychan
6. Llanbedr Fly School yn cau.
7. Treth Cyngor Gwynedd yn codi 9.54%
8. Treialu sachau hessian ar gyfer gwastraff ail gylchu. Mynd I adrodd yn ol ar hyn, ddim yn addas, yn abwyd gwerth chweil I lygod.
9. Materion Pot holes a draeniau Bryn Deiliog wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. (Lluniau gan Kevin)

Materion Eraill

1.Bod RW yn ceisio pwyso am gamerau cyflymder yn Llanbedr
Nododd bod 80% o'r traffic sydd yn mynd drwy Llanbedr yn rhagori ar derfyn cyflymder.

2. Bod wal ffordd gefn o Pensarn I Hen Bandy yn chwalu mewn aml I le. Hysbysu Cyngor Gwynedd.
3. Toiledau Cyhoeddus – safle dynion
a) angen golau mwy I mewn yn yr adeilad
b) washer /dryer – yn angen hwn.
c) Angen cl o ar un o'r drysau .
4) Golau ffordd ger Lismore ddim yn gweithio. Cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

5) Bydd peldroed 7 x 7 yn y ca e ar yr 18 o Fai. Ni chaniateir alcohol ar y cae fel y llynedd. Er iechyd a diogelwch.